

REPORT OF HEALTH, WELL-BEING, RECREATION AND TOURISM OFFICER

SUBJECT: 'NATIONAL PARKS WALES: "LANDSCAPES FOR EVERYONE" OUR APPROACH TO SOCIAL INCLUSION AND CHILD POVERTY'

Purpose of Report

To present 'National Parks Wales: "Landscapes For Everyone" Our Approach to Social Inclusion and Child Poverty' to Members.

Introduction/Background

The National Parks of Wales are 'Landscapes for Everyone'. National Parks Wales strive to connect people with the natural and cultural heritage of National Parks and through proactive engagement promote social inclusion, tackle social exclusion and reduce the negative impacts of poverty.

'Landscapes for Everyone' will replace the 2014-16 Social Inclusion and Child Poverty Strategy and Action Plan for National Parks in Wales.

This position statement and priority actions identify how National Parks Wales will deliver their core purposes and duty whilst meeting the requirements of Valued and Resilient

In order to deliver 'Landscapes for Everyone' it will be essential to continue to enhance and develop collaborative working in and across all National Park Authorities and for ongoing engagement and collaboration with stakeholders and beneficiaries in both statutory and non-statutory services and settings.

This position statement supplements 'National Parks Wales Together for Health and Well-being-Position Statement and Priority Actions 2018'.

Policy Context

Social inclusion and tackling the negative impacts of poverty are identified by the Welsh Government as essential factors in improving the well-being and quality life of people living in Wales. Social inclusion is an integral part of the Welsh Government's priorities linked to The Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015. The Priorities for Areas of Outstanding Natural Beauty and National Parks 2018 (valued and resilient) written statement notes under the section on "Landscapes for Everyone":

“While it is important for all sectors of society to experience these designated landscapes, particular focus should be given to children and young families from deprived areas. Action must be taken to help to tackle the inequalities that exist in health, education and economic outcomes amongst the poorest in society. This work will include enhanced outdoor education programmes and volunteering opportunities.

The AONB Partnerships and National Park Authorities should recognise the complex and multidimensional nature of social exclusion, seek to promote social inclusion in all AONB and National Park work, seek to foster the economic and social well-being of local communities and seek to reduce social exclusion in all its forms.”

Other key developments from Welsh Government include:

- Publication of its Child Poverty Strategy 2019 Progress report (<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-01/child-poverty-strategy-2019-progress-report.pdf>),
- The Welsh government has now confirmed that the Socio Economic Duty will be commenced this Senedd term, with a coming into force day of 31st March 2021. The overall aim of this duty is to deliver better outcomes for those who experience socio-economic disadvantage through encouraging better decision making. This duty will have implications for strategic decisions and plans that we make and the assessments carried out on them. <https://gov.wales/written-statement-more-equal-wales-commencing-socio-economic-duty-1>
- Welsh Government’s A more equal Wales: strengthening social partnership white paper: <https://gov.wales/more-equal-wales-strengthening-social-partnership-white-paper>

Financial considerations

‘Landscapes for Everyone’ will not come with any additional budgetary implications. However, it should define how we maximise the use of existing resources (including financial resources) to deliver social inclusion work effectively.

At present most of the Authority’s bespoke social inclusion work is project funded, for example the National Lottery supports the Pathways Project. Project funding of this type is always time limited and there is a need to consider how this type of work might be continued in the future. Whilst there continues to be a range of external funding opportunities and partnership possibilities available to support this work, the Authority might wish to increase its core funding to ensure the long-term success of our social inclusion work.

As a supplement to this work the Pembrokeshire Coast National Park Authority has recruited specialist to deliver a review and recommendations for ‘Experiences for All’ with a report due autumn 2020. This work is supported by Welsh Government unfunded pressures funds.

Risk and Compliance Considerations

‘Landscapes for Everyone’ supports National Park purposes and PCNPA’s Well-being Objectives and Equality Plan and Outcomes. Failure to consider and deliver

outcomes related to social inclusion and child poverty will impact on the Authority's ability to meet its Well-being Objectives and comply with the Public Sector Equality Duties.

National Park Authority's will need to comply with the Socio Economic Duty once enacted when making Strategic Decisions and show that due regard has been given to the duty. Non-compliance could result in judicial review proceedings being taken against the Authority.

The COVID-19 pandemic has brought about unprecedented health, social and economic impacts that have been felt throughout society and will continue to well into the future. The priorities and actions in 'Landscapes for Everyone' will be reviewed so that they continue to remain relevant and able to promote inclusive national park. It is recognised that there will be a need for flexible and responsive to the wider social and economic context within which National Parks exist.

As the Socio Economic Duty will duty coming into force in March 2021 will have implications for strategic decisions and plans that we make and the assessments carried out on them, it is proposed that NPW will review this document in the spring of 2021

Human Rights/Equality issues

The priority actions identified in this document will be done in accordance with the Authority's commitment to Equality and Diversity and will contribute to the delivery of the Authority's Equality Objectives.

Biodiversity implications/Sustainability appraisal

'Landscapes for Everyone' contains no activity that is likely to result in a negative impact on biodiversity in the National Park. Broadly speaking delivering 'Landscapes for Everyone' will result in an increased awareness of biodiversity in Pembrokeshire and involve participants in positive actions which support biodiversity

Welsh Language statement

Any work developed by the Authority such as engaging communities will be done in accordance with the Authority's Welsh Language Standards.

Conclusion

'Landscapes for Everyone' builds upon previous commitments from National Parks Wales on social inclusion and poverty. It provides a clear and concise approach to this subject. If approved, Landscapes for Everyone will help inform all work across all National Parks in Wales and will help to demonstrate actions and impact as requested in Valued and Resilient.

Recommendation

Members are asked to support and adopt on 'National Parks Wales: Landscapes for Everyone' and approve a review in the spring of 2021.

Background Documents

1. Valued and Resilient <https://gov.wales/written-statement-valued-and-resilient-welsh-governments-priorities-areas-outstanding-natural>
2. National Parks in Wales Social Inclusion and Child Poverty Strategy 2014-16
3. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-01/child-poverty-strategy-2019-progress-report.pdf>
4. National Parks Wales – Health and Well-being Position Statement and Priority Actions 2018 https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/archive/committee_operational_review_2018_march_7_02_18_health_wellbeing.pdf
5. <https://futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/>

Authors

Hannah Buck, Tourism and Wellbeing Policy Officer, PCNPA
Graham Peake, Discovery Team Leader, PCNPA
Mair Thomas, Performance and Compliance Co-ordinator



Parciau Cenedlaethol Cymru: “Tirweddau i Bawb”

Ein Dull Gweithredu tuag at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant



Ymateb i Cofid-19

Ym mis Mawrth 2020 ymatebodd Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC), ynghyd â chyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill, i bandemig COFID-19 trwy roi mesurau ar waith i amddiffyn eu staff, cymunedau a'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Er bod y meysydd blaenoriaeth a'r camau gweithredu mewn Tirweddau i Bawb yn parhau i fod yn berthnasol, mae PCC yn cydnabod y bydd angen bod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae tystiolaeth wedi dangos yn gyson mai'r rhai sy'n dioddef effeithiau negyddol allgau cymdeithasol a thlodi yw'r grwpiau hynny sydd hefyd yn dioddef yn anghymesur o afiechyd ac mae hynny'n cynnwys COFID-19. Mae'n amlwg hefyd y bydd y pandemig COFID-19 yn cael effaith anghymesur ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas oherwydd oedran ac anabled, ond rydym hefyd yn cydnabod y bydd effaith y pandemig hwn yn bellgyrhaeddol ac y bydd yn cael effeithiau parhaus ar les economaidd a chymdeithasol ein cymunedau am beth amser ar ôl i fygythiadau uniongyrchol enbyd y firws i'n hiechyd fynd heibio. Bydd y dirywiad economaidd yn effeithio ar ein cymunedau gwledig, a bydd anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol yn cynyddu yn anffodus, a byddwn yn cynllunio ar gyfer yr anghenion hyn ac yn ymateb iddynt.

Bydd Awdurdodau Parciau Cenedlaetholyn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i nodi cymunedau lle gallai gwaith wedi'i dargedu fod o'r budd mwyaf. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag eraill ac yn gweithio yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru fel y gallwn fod yn ymatebol ac yn effeithiol gyda'n dull gweithredu, gan sicrhau ar yr un pryd y gellir cynnal diogelwch ein staff a defnyddwyr gwasanaethau. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag eraill i sicrhau bod ein gweithredoedd yn gallu cefnogi'r broses adnewyddu ac adferar gyfer cymunedau a busnesau yn ein Parciau Cenedlaethol ac o'u cwmpas sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig COFID-19. Byddwn hefyd yn parhau i nodi ffyrdd i gefnogi ein cyrff cyhoeddus partner yn eu gwaith.

Yn y tymor hwy, bydd blaenoriaethau a chymunedau gweithredu yn cael eu hadolygu fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gallu hyrwyddo Parciau Cenedlaethol Cymru fel Tirweddau i Bawb.

Yr eiddoch yn gywir



Cynghorydd Paul Harries
Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru



Parciau Cenedlaethol Cymru: “Tirweddau i Bawb”

Ein Dull Gweithredu tuag at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant

Crynodeb

Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn ‘Dirweddau i Bawb’. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn ymdrechu, wrth gyflawni eu pwrpasau i gysylltu pobl â’u treftadaeth naturiol a diwylliannol a thrwy ymgysylltu rhagweithiol hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lleihau effaith negyddol tlodi ar allu pobl i gael mynediad i’r Parciau Cenedlaethol ac elwa ohonynt.

Mae’r datganiad sefyllfa hwn a’r camau gweithredu cysylltiedig, yn nodi sut y bydd Parciau Cenedlaethol Cymru yn cyflawni eu pwrpasau a’u dyletswydd craidd wrth fodloni gofynion blaenoriaethau Gwerthfawr a Chydnerth Llywodraeth Cymru: blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig.



Datganiad Sefyllfa

Mae'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn ymdrechu i fod yn enghreifftiau arweiniol o gynhwysiant cymdeithasol ac maent yn hyrwyddo egwyddorion ac arferion cydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn dirweddau i bawb.

Rydym yn ceisio cyfrannu at ansawdd bywyd da a gwneud bywyd yn well i bawb yng Nghymru a thu hwnt. Rydym yn ymdrechu, trwy gyflawni ein pwrpasau yn gynhwysol, i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu mewn perthynas â ran byw'n dda yn, ymweld â, a mwynhau Parciau Cenedlaethol Cymru.

Pam fod hyn o Bwys

Mae gan rai cymunedau yng Nghymru gyfraddau marwolaeth sydd ymhlith yr uchaf yn Ewrop. Mae gan Gymru lefelau uwch na'r cyfartaledd o anweithgarwch corfforol ac iechyd gwael o'i gymharu â gwledydd eraill Ewrop. Mae'r rhai sydd fwyaf difreintiedig oherwydd tlodi yn ein cymdeithas yn profi lefelau anghymesur o afiechyd. Mae ystadegau'n dangos bod traean o blant Cymru yn byw mewn tlodi. Gall Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae cymunedau ac unigolion sydd wedi'u heithrio yn eu profi (er enghraifft rhwystrau sydd a wnelo trafndiaeth, gwybodaeth neu rwystrau diwylliannol) fel y gallant gael mynediad at y buddion lles a gynigir gan y tirweddau, y cysylltiadau â threftadaeth a'r cyswllt â natur a geir yn y Parciau Cenedlaethol.

"Mae'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig i gael mwy o bobl i fod yn angerddol am yr amgylchedd naturiol, i gydnabod y cyfraniad y mae'n ei wneud i'r economi wledig a'r effaith y mae'n ei gael ar iechyd ac ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ynddynt ac yn ymweld."

Llywodraeth Cymru Gwerthfawr a Chydnerth (LIC 2018)

Ein Rhwymedigaethau

Pwrpasau Statudol Parciau Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none">✓ Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol✓ Hyrwyddo cyfleoedd i fwynhau a deall ei rinweddau arbennig.✓ Wrth ddilyn y pwrpasau uchod, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i feithrin lles economaidd a chymdeithasol.								
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	<ul style="list-style-type: none">✓ Cyfrannu trwy ein hamcanion Llesiant at:<table border="1"><tr><td>Gymru lewyrchus</td><td>Cymru o gymunedau cydlynol</td></tr><tr><td>Cymru Gydnerth</td><td>Cymru o ddiwylliant bywiog ac laith Gymraeg lewyrchus</td></tr><tr><td>Cymru iachach</td><td></td></tr><tr><td>Cymru fwy cydradd</td><td>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</td></tr></table>✓ Gweithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy trwy'r Pum Ffordd o Weithio: Tymor Hir, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys.	Gymru lewyrchus	Cymru o gymunedau cydlynol	Cymru Gydnerth	Cymru o ddiwylliant bywiog ac laith Gymraeg lewyrchus	Cymru iachach		Cymru fwy cydradd	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
Gymru lewyrchus	Cymru o gymunedau cydlynol								
Cymru Gydnerth	Cymru o ddiwylliant bywiog ac laith Gymraeg lewyrchus								
Cymru iachach									
Cymru fwy cydradd	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang								
Deddfwriaeth Tlodi a Chydraddoldeb Plant	<ul style="list-style-type: none">✓ Diwygiwyd deddfwriaeth Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddyletswydd i gael strategaeth Tlodi Plant bellach yn cael ei chyflawni trwy gynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol.✓ Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus gan gynnwys Dyletswyddau Penodol i Gymru a'r Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd (o Ebrill 1af 2020) o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.								

Datganiad Sefyllfa Gwerthfawr a Chydnerth Llywodraeth Cymru

Mae angen i Barciau Cenedlaethol yng Nghymru

1. Fod yn "Dirweddau i bawb"
1. Estyn allan y tu hwnt i gynulleidfaoedd traddodiadol
1. Ymgysylltu â chroestoriad mwy amrywiol o gymdeithas Cymru fel bod ganddyn nhw ran yn y tirweddau cenedlaethol

Mae'r datganiad yn nodi:

"Er ei bod yn bwysig i bob sector o gymdeithas brofi'r tirweddau dynodedig hyn, dylid rhoi ffocws arbennig ar blant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig. Rhaid gweithredu i **helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd ymhlith y tlotaf mewn cymdeithas**. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gwell rhaglenni addysg awyr agored a chyfleoedd gwirfoddoli."

Dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru (ac AoHNE):

- a. gydnabod natur gymhleth ac aml ddimensiwn eithrio cymdeithasol,
- b. geisio hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol yn holl waith yr AoHNE a'r Parciau Cenedlaethol
- c. geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol
- d. geisio lleihau eithriad cymdeithasol yn ei holl ffurfiau.

Egwyddorion sy'n arwain ein gweithgareddau i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol ac yn helpu i leihau anghydraddoldeb a thlodi plant:

- 1. Ymgysylltu rhanddeiliaid** gyda'r cyfleoedd cynhwysol sydd ar gael mewn Parciau Cenedlaethol sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac yn lliniaru effeithiau negyddol tlodi. Mae ymgysylltu a gweithredoedd yn gweithio orau mewn partneriaethau cydweithredol sy'n tynnu ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau byw ein holl gymunedau a phartneriaid.
- 1. Arddangos gwerth** Parciau Cenedlaethol i gynhwysiant cymdeithasol a lliniaru'r rhwystrau a achosir gan dlodi trwy nodi, casglu a chyfrannu at bolisi ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r profiadau sydd ar gael o fewn Parciau Cenedlaethol yn helpu i leihau effeithiau negyddol tlodi ac yn gwella cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a gwell iechyd.
- 1. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd** i bawb yng Nghymru elwa o amgylchedd naturiol a nodweddion tirwedd Parciau Cenedlaethol. Ymgysylltu pobl â'u hamgylcheddau naturiol a diwylliannol heb gyfaddawdu ar rinweddau a thirwedd arbennig Parciau Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Meysydd Blaenoriaeth

- 1. Byw yn y parc** - Cydweithio ag eraill i fynd i'r afael â thai fforddiadwy, mynediad at wasanaethau a thlodi gwledig ac arfordirol
- 2. Mynediad a chyfleoedd** - Hyrwyddo a gwella mynediad at yr awyr agored, diwylliant a threftadaeth, cyfleoedd ar gyfer chwarae, hamdden a lles
- 3. Dysgu a Gwaith** - Cydweithio â phartneriaid i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth, addysg a datblygu sgiliau



Lle gallwn gael effaith trwy gyfrwng ein blaenoriaethau

1. Byw yn y Parc

1.1 Mynediad at Dai Fforddiadwy

Yr her



Cymharu prisiau cartrefi gydag incwm ac enillion lleol:

PCBB: Mae'r pris cyfartalog 8 gwaith yr incwm cyfartalog.

PCE: Mae'r pris cyfartalog 7 gwaith yr incwm cyfartalog.

Sir Penfro: Y gymhareb pris eiddo i enillion oedd 7.16 yn 2018 o'i gymharu â 3.36 ym 1997 (SYG).

Ein Rôl Ni: Trwy ein penderfyniadau cynllunio a'n Cynlluniau Datblygu Lleol rydym yn cefnogi darparu tai fforddiadwy ar safleoedd addas yn ardaloedd y Parc.

Cyfrannwyd £47,000 o Gronfa Datblygu Cynaliadwy APCAP tuag at Western Solar Ltd i ddylunio ac adeiladu prototeip gweithredol o eco-gartref fforddiadwy

1.2 Mynediad at Wasanaethau ac Ymateb i Dlodi Gwledig ac Arfordirol

Yr her:



Mynediad gwledig at wasanaeth: #

ardaloedd (neu ardaloedd yn rhannol o fewn Ffin y Parc Cenedlaethol) o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru:

PCBB: 12 ardal

PCAP: 14 ardal

PCE: 17 ardal

Ein Rôl Ni: Rydym yn gweithio ar y cyd â chyrrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, busnesau a chymunedau lleol i ddatblygu a chefnogi prosiectau a chynlluniau sy'n helpu i fynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn ariannu ac yn darparu prosiectau cymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli ac yn gweithredu ar y cyd ag eraill i gael gwared ar rwystrau y gallai pobl eu hwynebu rhag cael mynediad at y chyfleoedd hyn mewn ardaloedd gwledig.

- ✓ Mae Sherpa'r Wyddfa yn wasanaeth bws unigryw sy'n teithio o amgylch godre'r Wyddfa, gan greu cyswllt gwerthfawr rhwng y chwe phrif lwybr sy'n mynd i fyny'r Wyddfa, yn ogystal â'r prif feysydd parcio, y pentrefi ac atyniadau i dwristiaid yn yr ardal. Mae maint y defnydd gan ymwelwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth gwledig mawr ei angen hwn yn parhau i weithredu.
- ✓ Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy APCBB wedi cefnogi llawer o brosiectau sy'n gwella mynediad at wasanaethau, gan gynnwys Canolfan y Mynydd Du Brynmanan, gan ddarparu siop un stop ar gyfer llyfrgell, meddyg, cymhorthfa'r heddlu, Undeb Credyd, TG, clwb tanwydd a llawer mwy.
- ✓ Mae prosiect gwirfoddoli Llwybrau APCAP, yn helpu pobl 16 oed neu hŷn i wella eu hiechyd a'u lles wrth iddynt ennill profiadau a sgiliau newydd trwy weithgaredd ymarferol yn yr awyr agored. Mae gweithgaredd y prosiect hefyd yn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth ar gyfer addysg a chyflogaeth. Ymhlith y grwpiau targed ar gyfer y prosiect mae pobl ifanc a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl.

2. Mynediad a Chyfleoedd

2.1 Cynyddu mynediad at chwarae yn yr awyr agored

Yr her:



Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18: Mae lefelau boddhad â lleoedd i blant 1-10 oed chwarae yn amrywio yn ôl statws economaidd y rhiant. Roedd 60% o rieni nad oeddent yn profi amddifadedd materol yn fodlon â lleoedd i blant chwarae, o gymharu â 40% o rieni a oedd yn profi amddifadedd materol.

Ein Rôl Ni: Rydym yn gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu a darparu prosiectau a chynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd chwarae awyr agored. Rydym yn defnyddio ein Cynlluniau Datblygu Lleol i amddiffyn manau cymunedol gwyrdd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

- ✓ Fel awdurdodau cynllunio mae'n rhaid i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol gynnal asesiad o fannau agored sy'n cynnwys adolygiad o'r holl fannau agored y gall y cyhoedd gael mynediad atynt yn ogystal â gofod sydd ym mherchnogaeth breifat fel tir ysgol. Mae hyn yn cynnwys meysydd hamdden a chwarae. Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn mynnu bod y lleoedd hyn yn cael eu gwarchod rhag datblygiad amhriodol.
- ✓ Mae APCAP yn bartner yn Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro (a adwaenir yn Saesneg fel PODS), nod y partneriaethau yw annog plant i ymgysylltu'n llawn â'u hamgylchedd lleol, a bod yn hyderus ynddo. Mae APCAP hefyd yn cefnogi ysgolion lleol i ddatblygu gerddi bywyd gwyllt a gwestai byg ac amgylcheddau dysgu awyr agored eraill ar dir eu hysgol.

2.2 Cynyddu mynediad at gyfleoedd hamdden yn y Parc

Yr her:



Mynediad at Lwybrau:

5,645 km o Hawliau
Tramwy Cyhoeddus agored
a hygyrch ar draws y tri
Parc Cenedlaethol. Mae
184km o lwybrau o fewn y
Parc Cenedlaethol yn cael
eu dosbarthu fel llwybrau
'mynediad i bawb'.

Ein Rôl Ni: Rydym yn gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu, cyflwyno ac ariannu cynlluniau a phrosiectau mynediad sy'n cael gwared ar rwystrau i bobl allu cyrchu cyfleoedd hamdden yn ardaloedd y Parc. Rydym yn gweithio i hyrwyddo a gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ardal y Parc lle bo hynny'n ymarferol i ddefnyddwyr nad ydynt yn gallu cyrchu'r llwybrau ar hyn o bryd.

- ✓ Mae APCE wedi gwneud gwaith i wella llwybrau Mynediad i Bawb Dol Idris wrth droed Cadair Idris yn ogystal â datblygu llwybr aml-ddefnyddiwr cylchdaith Yr Wyddfa. Gall ymwelwyr hefyd ddefnyddio tramper a ellir ei yrru oddi ar y ffordd sy'n eiddo i'r Parc Cenedlaethol i archwilio'r llwybrau hyn.
- ✓ Mae cadeiriau olwyn traeth APCAP wedi'u cynllunio a'u cynhyrchu'n arbennig i'w defnyddio ar draethau tywodlyd. Gan weithio gyda busnesau a sefydliadau lleol maent ar gael i'w llogi mewn nifer o allfeydd yn y Parc Cenedlaethol, gan alluogi pobl i gael mynediad at rai o draethau gorau'r Parc.
- ✓ Mae prosiect Milltiroedd Heb Gamfeydd / Miles Without Stiles APCBB wedi gweithio yn ddiweddar gyda defnyddwyr lleol, Cyngorau Tref a pherchnogion tir o gwmpas Aberhonddu, Talgarth a Chrughywel i nodi llwybrau addas lle mae gatiâu hunan-gau newydd wedi disodli camfeydd a rhwystrau eraill.

2.3 Cynyddu Mynediad at gyfleoedd Iechyd a Lles yn y Parc

Yr her:



Arolwg Cenedlaethol Cymru

2017-18: Roedd 34% o oedolion yn anweithgarwch (yn symud / actif am lai na 30 munud yr wythnos flaenorol). Roedd anweithgarwch ar ei uchaf ymhlith oedolion hŷn ac oedolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae 24% o'r rhai sy'n goddef amddifadedd materol anhwylder iechyd meddwl, o'i gymharu â 6% o'r rhai nad ydynt yn goddef amddifadedd materol. Nododd 37% o'r rhai sy'n goddef amddifadedd materol eu bod yn unig o gymharu â 12% o'r rhai nad oeddent mewn cyflwr o amddifadedd.a

Ein Rôl Ni: Rydym yn gweithio ar y cyd â darparwyr iechyd ac eraill i ddatblygu a chyflawni prosiectau a chynlluniau sy'n helpu pobl i gael mynediad at y Cyfleoedd iechyd a lles yn ardaloedd y Parc ac elwa ohonynt. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo mynediad at gyfleoedd cerdded gyda chymorth a gwirfoddoli.

- ✓ Gan gysylltu â'r agenda rhagnodi cymdeithasol ehangach, mae Awdurdodau'r Parc yn darparu cyfleoedd cerdded â chymorth sy'n helpu pobl i oresgyn rhwystrau rhag cael mynediad at fuddion iechyd cerdded yn y Parc. Mae gan APCE glwb 'Cerdded iechyd' yn Y Bala. Mae prosiect Walkability APCAP yn darparu sesiynau cerdded â chymorth yn ogystal â darparu cyngor a hyfforddiant i helpu i sefydlu grwpiau cerdded lleol ac mae prosiect APCBB ar Heneiddio'n Egniol yn darparu cyfleoedd cerdded am ddim i bobl hŷn fel math o ragnodi cymdeithasol.
- ✓ Mae APCE yn rhan o Bartneriaeth Beth Am Symud Gogledd Cymru ac mae APCAP yn rhan o fenter Beth Am Gerdded / Let's Walk Sir Benfro, ac mae'r ddau yn annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd cerdded yn eu cymunedau.
- ✓ Mae prosiect ymchwil gweithredu Camau Bach APCBB yn gweithio gydag adran Seicoleg y Bwrdd Iechyd i ddarparu rhaglen fuddiol o weithgaredd i cleifion mewn gofal eilaidd ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl.

3. Dysgu a Gwaith

3.1 Mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn y Parc

Yr her:



CCHD – A yw Cymru'n Decach

2018: Yn 2016/17 roedd 10.4% o weithwyr a phobl hunangyflogedig 16 oed a hŷn yng Nghymru mewn cyflogaeth ansicr. Mae hyn yn golygu eu bod naill ai wedi'u cyflogi mewn cyflogaeth dros dro neu'n gyflogedig gan asiantaeth, neu eu bod yn hunangyflogedig ac yn gweithio mewn gofal, hamdden, galwedigaethau gwasanaeth eraill, fel gweithwyr proses, offer neu beiriannau, neu mewn galwedigaethau elfennol (er enghraifft, glanhawyr neu gynorthwyywyr arlwyo).

Ein Rôl Ni: Trwy ein penderfyniadau cynllunio a'n Cynlluniau Datblygu Lleol rydym yn cefnogi datblygiadau economaidd cynaliadwy. Trwy grantiau fel y Cronfeydd Datblygu Cynaliadwy, cyfleoedd consesiwn, caffael lleol a chyfleoedd eraill rydym yn cefnogi busnesau lleol. Rydym yn gyflogwr gwledig ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n byw yn ac o amgylch ardaloedd y Parc.

- ✓ Mae APCAP yn cynnal ffeiriau yn ei ganolfannau sy'n darparu cyfleoedd i fusnesau lleol gael stondin a chael mynediad at y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn.
- ✓ Mae APCBB yn darparu lleoliad ar gyfer gwerthu crefftau lleol yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, ac mae wedi cefnogi Marchnadoedd Ffermwyr i sefydlu ac i gefnogi economi gylchol.

3.2 Cynyddu mynediad at gynnig addysg

Yr her:



Llesiant yng Nghymru 2018:

Roedd 28% o blant yng Nghymru yn byw mewn tldi incwm cymharol ar ôl i gostau tai gael eu talu. Plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tldi incwm cymharol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn parhau i fod yn ddangosydd anghydraddoldeb allweddol ar gyfer rhai canlyniadau fel cyrhaeddiad addysgol.

Ein Rôl Ni: Rydym yn gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu cyfleoedd i sicrhau bod ein cynnig addysg yn hygyrch i blant o ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd materol uwch ac i ddarparu cyfleoedd yn yr awyr agored i blant ag anghenion ychwanegol.

- ✓ Yn APCE, cynigir grant ar gyfer costau cludiant i grwpiau ysgol ac fe'i defnyddir yn helaeth, gyda llawer o ysgolion yn nodi na fyddent yn gallu cymryd rhan heb y cymorth hwn.
- ✓ Mae cynllun Chwarae Teg APCBB wedi cynnig i ysgolion â dros 20% o blant yn gymwys i gael cyllid prydau ysgol am ddim i dalu costau cludo ar gyfer ymweliadau addysgol. Mae ein rhaglen addysg yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau cwricwlwm a bydd yn cefnogi Dyfodol Llwyddiannus (cwricwlwm newydd).
- ✓ Mae prosiect Criw Celf, Canolfan Oriol Y Parc APCAP, a ariennir gan Gyngor y Celfyddydau, yn darparu gweithdai allgymorth am ddim i ysgolion llai breintiedig nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan yn y prosiect.

3.3 Darparu cyfleoedd datblygu sgiliau

Yr her:



Llesiant yng Nghymru 2018:

Lefelau sgiliau a chymwysterau yw'r dylanwad unigol mwyaf ar siawns pobl o fod mewn gwaith ac ar eu hincwm. Lefel sgiliau a chymhwyster y boblogaeth mewn ardal hefyd yw'r ffactor pwysicaf yn llwyddiant economaidd yr ardal honno.

Ein Rôl Ni: Rydym yn gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu a chefnogi prosiectau a chynlluniau sy'n darparu cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau ac ennill profiad yn y gweithle, gan agor eu cyfleoedd cyflogaeth ehangach.

- ✓ Yn APCE, mae prosiect MTT Dolgellau hyd yn hyn wedi darparu hyfforddiant crefftwaith i dros 70 o unigolion, ac felly darparir sgiliau lefel uchel i alluogi unigolion i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth ehangach.
- ✓ Rhaglen Sgiliau Gwledig oedd 'Get Into the Brecon Beacons' a gynhaliwyd gan APCBB a'r Prince's Trust Cymru gyda'r nod o ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt ar hyn o bryd mewn Addysg na Hyfforddiant na Chyflogaeth (a adwaenir fel NEET). Rhoddodd gyfle iddynt brofi a deall y cyfleoedd sydd ar gael yn y sector treftadaeth amgylcheddol leol ac ennill sgiliau ar gyfer gwaith.

Mynd i'r afael â'r materion hyn:

Ymdrinnir â'r blaenoriaethau hyn trwy gyfrwng yr hyn a restrir isod sy'n berthnasol i bob Awdurdod:

- ✓ Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol
- ✓ Cynlluniau Corfforaethol
- ✓ Cynlluniau Cydraddoldeb

Bydd pob Awdurdod yn monitro cynnydd trwy fesurau a champau gweithredu perthnasol yn eu hadroddiadau perfformiad i bwyllgorau a'u Hadroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Lles (Rhan 2 y Cynllun Gwella).

Mae'r datganiad sefyllfa hwn yn ategu **Datganiad Sefyllfa Parciau Cenedlaethol Cymru Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd a Lles a Chamau Blaenoriaethol 2016**